Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Wasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy

Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir
Radur
Brynbuga
Sir Fynwy
NP15 1GA

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Cyd-destun y ddarpariaeth

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn o waith ieuenctid ychydig o wythnosau cyn yr arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol yn yr awdurdod. Mae hyn yn galluogi'r negeseuon a'r gwerthusiadau o'r arolygiad gwaith ieuenctid i lywio'r arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol ehangach, lle bo'n berthnasol.

Mae Sir Fynwy wedi'i lleoli yn ne-ddwyrain Cymru, ac mae ganddi boblogaeth o ryw 94,930, yn cynnwys tua 13,469 o bobl ifanc 11-25 oed. Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso gwasanaethau ieuenctid. Yn ôl y darparwr, mae 9.2% o boblogaeth Sir Fynwy o grŵp ethnig lleiafrifol. Mae ganddynt 12.5% o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac 11.4% sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y mae'r naill a'r llall o'r rhain islaw cyfartaledd Cymru. Mae Gwasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy yn rhan o dîm cynhwysiant yr awdurdod lleol o fewn ei gyfarwyddiaeth Plant, Dysgu, Sgiliau a'r Economi.

Mae'r awdurdod lleol yn diffinio diben ei wasanaeth ieuenctid fel 'grymuso pobl ifanc Sir Fynwy i ffynnu a ffurfio dyfodol'. Adeg yr arolygiad, mae gan y gwasanaeth ieuenctid 13.27 o staff cyfwerth ag amser llawn. Mae 10 aelod o staff amser llawn ac 13 o staff rhan-amser.

Mae'r gwasanaeth yn darparu ystod o waith ieuenctid mynediad agored sy'n canolbwyntio ar y pedair prif dref, sef Trefynwy, Y Fenni, Cil-y-coed a Chas-gwent. Mae canolfannau ieuenctid dynodedig mewn tair o'r trefi, ac mae darpariaeth clwb ieuenctid ychwanegol ar gael i bobl ifanc ar draws yr awdurdod.

Mae'r gwasanaeth yn darparu gwaith ieuenctid targedig ar gyfer pobl ifanc fregus 11-25 oed trwy ffrydiau gwaith fel prosiect Shift a rhaglen State of Mind. Caiff gwaith targedig arall ei wneud mewn cydweithrediad ag ystod o bartneriaid sydd wedi'u comisiynu.

Mae gan y gwasanaeth ieuenctid gyllideb flynyddol o ryw £733k, y daw tua thri chwarter ohoni o gyllideb o gyllid craidd gwaith ieuenctid, a'r gweddill o grantiau.

## Trosolwg

Mae pobl ifanc Sir Fynwy yn elwa'n fawr ar ymgysylltu â darpariaeth gwaith ieuenctid o fewn yr awdurdod. Maent yn datblygu medrau personol, cymdeithasol ac addysgol pwysig o fewn arweiniad medrus gweithwyr ieuenctid, sy'n eu helpu i fagu hyder, gwydnwch ac ymdeimlad cryf o les. Mae llawer o bobl ifanc yn gwneud cynnydd ystyrlon yn eu dysgu a'u datblygiad personol, gan eu harfogi â'r wybodaeth, ac annog eu huchelgais, i gyflawni eu potensial fel oedolion ifanc.

Mae pobl ifanc yn cael cymorth effeithiol i gynnal ymgysylltiad mewn addysg neu hyfforddiant, ac yn gwneud dewisiadau cadarnhaol am ffordd o fyw. Mae'r rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio yn elwa ar ymyriadau targedig sy'n eu helpu i wella'u presenoldeb. Mae cymorth pontio ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn hynod werthfawr ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer symud i'r ysgol uwchradd. Mae llawer o bobl ifanc hefyd yn caffael medrau bywyd defnyddiol trwy ddysgu anffurfiol, yn cynnwys gwneud dewisiadau iach a datblygu annibyniaeth.

Mae pobl ifanc ag ADY yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi, eu parchu a'u cynnwys. Maent yn mwynhau mynychu sesiynau yn yr ysgol sy'n darparu mannau diogel ar gyfer rhyngweithio a datblygiad cymdeithasol. Mae pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn elwa ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol trwy glybiau ieuenctid cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu darparu gan yr Urdd, sy'n cryfhau eu hyder a'u hunaniaeth.

Mae pobl ifanc yn mynegi eu hunain yn dda ac yn mynd ati i gyfrannu at drafodaethau am faterion sy'n effeithio ar eu bywydau. Maent yn magu hyder trwy gyfleoedd creadigol sy'n hyrwyddo gwaith tîm, hunanfyfyrio a mynegiant personol. Mae pobl ifanc yn dangos eu gallu i wrando, herio a ffurfio barnau yn barchus. Mae gan lawer ohonynt ymdeimlad cryf o berthyn a diben trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau gwaith ieuenctid, sy'n helpu lleihau ynysigrwydd cymdeithasol ac yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol.

Mae gweithwyr ieuenctid yn meddu ar gymwysterau da, yn brofiadol ac yn hynod ymrwymedig i wella bywydau pobl ifanc. Maent yn adnabod eu cymunedau'n dda ac yn creu amgylcheddau croesawgar lle gall pobl ifanc ofyn am gymorth ac arweiniad. Maent yn fedrus o ran gwrando ac yn cychwyn trafodaethau ystyrlon sy'n annog hunanymwybyddiaeth a datrys problemau. Mae staff yn gweithio'n hyblyg ar draws ystod o leoliadau, gan ddarparu cyswllt allweddol rhwng ysgolion a'r gymuned.

Mae gweithwyr ieuenctid yn meithrin perthnasoedd cryf ag ysgolion, partneriaid ac asiantaethau arbenigol i sicrhau bod pobl ifanc yn cael cymorth amserol a chydlynus. Maent yn deall anghenion amrywiol pobl ifanc, sydd weithiau'n anghenion cymhleth, ac yn ymateb yn sensitif i'r rhain. Mae eu harfer gynhwysol yn sicrhau bod yr holl bobl ifanc, yn

cynnwys y rhai o gefndiroedd lleiafrifol, y rhai ag ADY a'r rhai sy'n nodi eu bod yn LHDTC+, yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynrychioli.

Mae gweithwyr ieuenctid yn gwneud defnydd effeithiol o oruchwyliaeth ac arfer fyfyriol i asesu effaith eu gwaith a nodi cyfleoedd ar gyfer gwella. Caiff eu harbenigedd proffesiynol ei gydnabod yn gynyddol ar draws yr awdurdod lleol a chan asiantaethau allanol, sy'n gwerthfawrogi eu cyfraniad at fentrau ataliol a chymunedol.

Mae arweinwyr yn darparu cyfeiriad strategol clir ac mae ganddynt ddealltwriaeth gref o rôl gwaith ieuenctid ar draws yr awdurdod lleol ehangach. Maent wedi sefydlu partneriaethau effeithiol â sefydliadau mewnol ac allanol sy'n ymestyn ystod ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae trefniadau cydweithredol yn sicrhau bod pobl ifanc yn gallu elwa ar wasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion, yn cynnwys cymorth ar gyfer cyflogaeth, iechyd meddwl ac atal digartrefedd.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau diogelu yn gadarn a bod pob un o'r staff yn deall ac yn dilyn gweithdrefnau cytûn. Caiff diwylliant diogelu ei wreiddio ar draws y gwasanaeth, wedi'i gefnogi gan hyfforddiant rheolaidd a sicrhau ansawdd atgyfeiriadau. Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais cryf ar les staff ac yn darparu goruchwyliaeth a chymorth proffesiynol, pan fydd angen. Mae goruchwyliaeth reolaidd a datblygiad gweithlu strwythuredig yn sicrhau bod staff yn deall eu cyfrifoldebau a'u bod yn gallu elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol priodol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o ddata byw i lywio cynllunio a monitro perfformiad. Mae system gwybodaeth reoli gynhwysfawr yn cofnodi data trwy gofnodion sesiynau sy'n bwydo'n uniongyrchol i'r cynllun cyflenwi gwasanaeth. Mae hyn yn galluogi gwneud penderfyniadau amserol ac yn helpu arweinwyr i werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth, yn cynnwys darpariaeth a gyflwynir gan bartneriaid. Fodd bynnag, nid yw trefniadau craffu'r awdurdod lleol yn darparu goruchwyliaeth na her briodol i gefnogi gwelliant parhaus y gwasanaeth.

Mae gan y gwasanaeth ieuenctid weledigaeth glir a chynhwysol sy'n grymuso pobl ifanc i ffynnu a ffurfio'u dyfodol. Mae ei ddarpariaeth yn uchel ei pharch gan bobl ifanc, partneriaid ac uwch swyddogion. Mae'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at amcanion ehangach yr awdurdod lleol, gan helpu pobl ifanc i ddatblygu hyder, annibyniaeth a dinasyddiaeth weithgar. Trwy staff medrus, partneriaethau effeithiol ac arweinyddiaeth gref, mae'r gwasanaeth ieuenctid yn gwneud gwahaniaeth sylweddol a chadarnhaol i fywydau pobl ifanc yn Sir Fynwy.

Beth gall pobl ifanc ei ddisgwyl gan Wasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy:

- Mae gwaith ieuenctid yn Sir Fynwy yn helpu pobl ifanc i deimlo'n fwy hyderus, eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn barod ar gyfer y dyfodol. Mae gweithwyr ieuenctid yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc gwrdd â phobl newydd, dysgu medrau newydd a chael hwyl mewn mannau diogel lle gallant fod yn nhw eu hunain.
- Mae gweithwyr ieuenctid yn gwrando ar bobl ifanc, yn gofalu amdanynt, ac yn eu cefnogi. Maent yn helpu gyda phethau fel gofidiau ysgol, cyfeillgarwch ac iechyd meddwl. Dywedodd llawer o bobl ifanc wrthym eu bod yn ymddiried yn fawr yn eu gweithiwr ieuenctid.
- Mae gweithwyr ieuenctid yn helpu pobl ifanc i aros yn yr ysgol, gwneud dewisiadau iach a dysgu medrau bywyd fel coginio, gwaith tîm a gwneud penderfyniadau. Mae sesiynau creadigol fel cerddoriaeth, celf a ffilm yn helpu pobl ifanc i fynegi eu hunain a theimlo'n falch o'r hyn y gallant ei wneud.
- Mae gan bobl ifanc lais amlwg mewn ffurfio gwaith ieuenctid. Trwy 'Gwnewch Eich Marc' a chynadleddau ieuenctid, mae miloedd o bobl ifanc yn rhannu eu barn ar yr hyn sy'n cyfri fwyaf – fel costau byw, iechyd meddwl a chyflogaeth a medrau. Mae pobl ifanc yn gweld eu syniadau'n cael eu rhoi ar waith go iawn.
- Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn gwneud yn siŵr fod pawb yn teimlo'u bod yn cael eu cynnwys a'u parchu. Mae pobl ifanc o bob cefndir yn cael cymorth i gymryd rhan a dathlu pwy ydyn nhw.
- Mae gweithwyr ieuenctid yn angerddol ac wedi eu hyfforddi'n dda. Maent yn gweithio gydag ysgolion, cymunedau a sefydliadau eraill i wneud yn siŵr fod pobl ifanc yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir.
- Mae gan reolwr ac arweinwyr y gwasanaeth ieuenctid weledigaeth glir – helpu'r holl bobl ifanc yn Sir Fynwy i ffynnu a ffurfio'u dyfodol eu hunain. Maent yn defnyddio'r hyn mae pobl ifanc a staff yn ei ddweud wrthynt er mwyn parhau i wella'r hyn maent yn ei wneud.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r gwasanaeth i barhau i wella, sef:

A1. Sicrhau bod y gwasanaeth ieuenctid yn cael ei gynnwys mewn trefniadau craffu ffurfiol ar lefel aelod er mwyn i aelodau etholedig allu darparu goruchwyliaeth a her briodol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhelliad o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Sut mae gwaith ieuenctid yn helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial?

Mae llawer o bobl ifanc sy'n ymgymryd â gwaith ieuenctid yn Sir Fynwy yn elwa'n addysgol ac yn bersonol ar y gweithgareddau sydd ar gael iddynt. O dan arweiniad medrus gweithwyr ieuenctid, maent yn datblygu'r wybodaeth a'r gwydnwch sy'n angenrheidiol i'w helpu i gyflawni eu potensial fel oedolion ifanc.

### Addysgol

Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn elwa ar y cymorth pontio sy'n cael ei hwyluso gan weithwyr ieuenctid. Maent yn derbyn gwybodaeth ac arweiniad gwerthfawr ar faterion a allai effeithio arnynt yn yr ysgol uwchradd, er enghraifft pwysau gan gyfoedion, ysmygu a pherthnasoedd iach. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau hyn gyda'u cyfoedion ac yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu taith addysgol.

Mae pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio yn cael cymorth unigol gwerthfawr, sydd yn ei dro, yn golygu eu bod yn mynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd ac yn ymgysylltu'n fwy effeithiol â'u haddysg. Mae pobl ifanc fregus a'r rhai sydd angen cymorth â'u dysgu yn elwa ar gymorth ac arweiniad mentora gwerthfawr sydd, yn ei dro, yn gallu arwain at gyfleoedd achredu, fel dysgu achrededig ar gyfer gofalwyr ifanc.

Mae pobl ifanc ag ADY yn teimlo bod gweithwyr ieuenctid yn eu cefnogi, ac yn gwrando arnynt mewn darpariaeth deilwredig o fewn ysgolion, yn cynnwys yn ystod clybiau ieuenctid amser cinio. Maent yn rhyngweithio'n dda mewn gweithgareddau ac yn teimlo'u bod wedi eu paratoi'n well i gynnal eu diddordeb a'u hymgysylltiad ag addysg ffurfiol.

Mae ychydig o bobl ifanc yn gwneud cynnydd sylweddol yn eu cyrhaeddiad addysgol ac yn symud o fynychu clybiau ieuenctid i gymhwyso i fod yn weithwyr ieuenctid eu hunain, gan ennill cymwysterau proffesiynol Lefel 3.

Mae pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn datblygu eu defnydd o'r Gymraeg y tu allan i leoliadau addysg ffurfiol yn fuddiol mewn clybiau ieuenctid cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cynnal gan yr Urdd. Mae hyn yn ehangu eu defnydd o'r Gymraeg yn werthfawr o fewn rhyngweithio cymdeithasol naturiol ac yn eu cynorthwyo i fod yn siaradwyr Cymraeg cynyddol hyderus a gweithgar.

At ei gilydd, mae llawer o bobl ifanc yn caffael ac yn ymarfer medrau bywyd gwerthfawr fel coginio, ac yn ennill gwybodaeth werthfawr am sut i fyw a bwyta'n iach.

## Mynegiannol

Yn gyffredinol, mae pobl ifanc yn mynegi eu hunain yn huawdl, er enghraifft trwy weithgareddau fel 'cwestiwn yr wythnos'. Mae hyn yn annog pobl ifanc i fynegi eu barn mewn sylwadau ysgrifenedig sy'n arwain at drafodaethau sy'n symbylu eu meddwl, eu gallu i fyfyrio, a ffurfio'u casgliadau a'u safbwyntiau eu hunain. Er enghraifft, mae pobl ifanc yn rhoi ystyriaeth feddylgar i faterion cymuned ac iechyd, fel fepio.

Mae llawer o bobl ifanc yn dysgu mynegi eu hunain yn greadigol trwy weithgareddau fel celf a chrefft. Maent hefyd yn elwa ar gyfleoedd creadigol fel gweithdai rhagflas ac arbrofol gan gwmni dawns lleol, gan fynegi eu hunain yn effeithiol trwy ffilm, dawns, bod yn DJ, 'beat box', creu ffilmiau, ysgrifennu caneuon a chelfyddyd stryd. Mae'r gweithgareddau hyn yn cefnogi eu hiechyd meddwl, eu ffitrwydd corfforol, ac yn datblygu medrau cymdeithasol fel gwaith tîm a pharch. Yn ychwanegol, maent yn caffael medrau ymarferol eraill trwy weithio gyda gweithwyr ieuenctid i drefnu gwyliau fel Cabin Fest, gyda phobl ifanc yn arwain ac yn cymryd cyfrifoldeb am hyrwyddo a bod yn DJ.

## Cyfranogol

Mae bron pob un o'r bobl ifanc yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn sesiynau a gweithgareddau, ac yn amlwg yn mwynhau eu hunain. Maent yn groesawgar, yn gyfeillgar ac yn ymgysylltu'n adeiladol. Maent yn datblygu medrau cymdeithasol gwerthfawr wrth ryngweithio â phobl ifanc eraill ac oedolion.

Mae bron pob un o'r bobl ifanc yn teimlo y gwrandewir arnynt a'u bod yn gallu dylanwadu ar natur a datblygu gweithgareddau, yn ogystal â dysgu sut i'w harwain. Mae llawer o bobl ifanc yn datgan yn gryf fod gweithgareddau gwaith ieuenctid yn rhoi synnwyr o ddiben iddynt ac yn eu helpu i osgoi ynysigrwydd cymdeithasol. Maent yn dod yn bartneriaid gweithgar mewn trefnu a hyrwyddo digwyddiadau fel 'Skatejams' yn ystod gwyliau'r haf.

Caiff pobl ifanc gyfleoedd i gymryd rhan yng ngwobrau Dug Caeredin trwy'r berthynas waith agos rhwng y gwasanaeth ieuenctid a staff Gwobr Dug Caeredin yr awdurdod lleol. Mae mwy o bobl ifanc yn Sir Fynwy, fel canran o'r boblogaeth 14-24 oed, yn cymryd rhan yng ngwobrau Dug Caeredin na mewn unrhyw ardal arall yng Nghymru. Mae'r bobl ifanc hyn yn magu hyder, yn dysgu gwerth gwirfoddoli mewn cymdeithas ac yn ennill cymwysterau defnyddiol.

## Cynhwysol

Mae pobl ifanc sy’n nodi eu bod yn LHDTC+ yn dod yn eiriolwyr huawdl drostyn nhw eu hunain a phobl eraill sydd hefyd yn nodi eu bod yn LHDTC+.

Roedd pobl ifanc sy’n mynychu darpariaeth Equality Street yn ddylanwadol o ran trefnu’r digwyddiad Pride Ieuenctid cyntaf yn Sir Fynwy. Mynychodd 750 o bobl y digwyddiad, ac fe’i cydnabuwyd gan wobrau lleol a chenedlaethol. Dangoson nhw uchelgais a gweledigaeth trwy drawsnewid hyn y flwyddyn ganlynol yn ŵyl amrywiaeth a barodd am ddeuddydd, yn dathlu Pride, y Gymraeg a phobl o wahanol gefndiroedd ethnig, a phobl ag anableddau. Y flwyddyn ganlynol, arweiniodd pobl ifanc ar greu sioe deithiol amrywiaeth gyda gweithdai ar rywedd, rhywioldeb, hanes LHDTC+, anabledd, hiliaeth a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP).

Caiff pobl ifanc o gefndiroedd ethnig lleiafrifol fynediad gwerthfawr at ddarpariaeth, a gynhelir mewn partneriaeth â’r Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST), fel sesiwn galw i mewn a chlwb gwaith cartref sy’n darparu man diogel, yn ogystal â chymorth a chyngor i bobl ifanc archwilio’u hunaniaeth a’u diwylliant eu hunain o fewn cyd-destun Cymreig. Er enghraifft, mae pobl ifanc yn cymryd rhan yn dda mewn cystadleuaeth farddoniaeth a gynhelir ar y cyd gan EYST a’r Urdd.

Mae pobl ifanc yn elwa ar ddarpariaeth iechyd a lles trwy raglen ‘State of Mind’, sef grŵp cymorth gan gyfoedion. Trwy hyn, maent yn magu hyder, yn datblygu gwydnwch ac yn integreiddio o fewn cymdeithas, er enghraifft trwy weithgareddau gwirfoddoli neu gyflogaeth. Trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol, mae llawer o bobl ifanc yn datblygu dealltwriaeth glir, yn ogystal ag ymdeimlad o dosturi a sensitifrwydd tuag at hawliau a theimladau eu cyfoedion a phobl eraill.

## Grymuso

Mae gan bobl ifanc rôl ganolog mewn dylunio a chynllunio gweithgareddau gwaith ieuenctid. Yn ogystal, mae niferoedd mawr o bobl ifanc yn ymgymryd â rôl weithgar a phwysig mewn arfer a hyrwyddo’u hawliau. Er enghraifft, mae pobl ifanc yn manteisio ar gyfleoedd i fynegi eu safbwyntiau trwy’r Cyngor Ieuenctid ac yn dylanwadu ar bolisi lleol ar fwlio, yn ogystal â pholisi Llywodraeth Cymru sy’n effeithio ar bobl ifanc trwy sefydliad cenedlaethol Plant yng Nghymru.

## Beth gall pobl ifanc ei ddisgwyl o ddarpariaeth gwaith ieuenctid

Mae gweithwyr ieuenctid yn meddu ar gymwysterau da ac wedi cael hyfforddiant da. Maent yn angerddol ac yn frwdfrydig am y gwaith a wnânt. Mae llawer o’r gweithwyr a’r gwirfoddolwyr yn gwerthfawrogi’r profiadau a'r cymorth a gawsant eu hunain o waith ieuenctid, ac eisiau rhoi’n ôl i’r gwasanaeth trwy weithio gyda phobl ifanc. Mae sawl

gweithiwr ieuenctid wedi dod yn swyddogion gwerthfawr mewn gwahanol adrannau o fewn yr awdurdod lleol.

Mae gweithwyr ieuenctid yn adnabod y bobl ifanc a’u cymunedau yn dda. Mae pobl ifanc yn teimlo’n gyfforddus yn troi atynt yn y mannau diogel y maent yn eu creu i rannu problemau personol a gofyn am gymorth a gwybodaeth. Mae gweithwyr ieuenctid yn fedrus wrth fynd ati i wrando ac yn nodi cyfleoedd yn effeithiol i gychwyn trafodaethau ystyrlon gyda phobl ifanc ar destunau sy’n bwysig iddynt. Mae’r gweithwyr ieuenctid yn wydn ac yn barod i newid, ac yn gweithio’n hyblyg ar draws gwahanol ardaloedd daearyddol, prosiectau, clybiau ac ysgolion. Maent yn gweithio’n agos ac yn effeithiol gyda phartneriaid a darparwyr gwaith ieuenctid eraill, ac yn cyfeirio ac yn llywio pobl ifanc yn rhagweithiol at asiantaethau arbenigol am fwy o gymorth ac arweiniad.

Mewn gwaith yn yr ysgol a thrwy leoliadau mynediad agored, mae gweithwyr ieuenctid yn ymgynghori â phobl ifanc yn rheolaidd am y gweithgareddau yr hoffent eu gwneud, ac yn cynllunio’r ddarpariaeth ar sail eu hadborth. Mae’r gweithwyr yn helpu pobl ifanc i ddatblygu eu medrau gwneud penderfyniadau, magu eu gwydnwch a’u lles personol a’u harfogi i ddod yn ddinasyddion gweithgar yn y gymuned ehangach. Un enghraifft yw prosiect Shift, lle mae gweithwyr ieuenctid yn cynorthwyo pobl ifanc â’u hiechyd meddwl a’u lles. Trwy hyn, ceir llawer o enghreifftiau o ‘newid bywydau er gwell’ gan ymyriadau gwaith ieuenctid.

### Ciplun: Prosiect Shift

Mae Prosiect Shift, a ariennir trwy’r Grant Cymorth Ieuenctid, yn darparu cymorth iechyd meddwl a lles emosiynol teilwredig ar gyfer pobl ifanc trwy ymyriadau un i un. Mae proses atgyfeirio amlasiantaethol yn galluogi’r gwasanaeth ieuenctid i adolygu a dyrannu achosion yn ofalus i’r ddarpariaeth fwyaf priodol. Mae’r dull cydweithredol hwn hefyd yn galluogi staff i ddod ag achosion yn ôl gerbron y panel i’w trafod ymhellach neu’u cyfeirio at wasanaeth cymorth mwy addas.

Mae gweithwyr ieuenctid yn elwa ar oruchwyliaeth arbenigol a mynediad at gymorth CAMHS, gan eu helpu i reoli anghenion cymhleth pobl ifanc yn effeithiol tra’n cynnal eu lles eu hunain. Maent yn dweud eu bod yn teimlo’u bod yn cael cefnogaeth dda gan eu rheolwyr llinell.

Bu staff yn cynllunio a gweithredu offeryn cynnydd o’r enw’r ‘Big 12’, i fesur effaith ymyriadau, a chafodd pobl ifanc eu cynnwys yn weithredol mewn gosod eu nodau eu hunain. Mae deilliannau wedi cynnwys hyder, hunan-barch a medrau cymdeithasol cynyddol. Cafwyd enghreifftiau o bobl ifanc sydd wedi symud ymlaen i wirfoddoli a chael cyflogaeth am dâl o fewn y gwasanaeth ieuenctid, ar ôl cymryd rhan ym mhrosiect Shift.

Mae gweithwyr ieuenctid yn hynod ymrwymedig i ddarparu cymorth a ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â phobl ifanc ag ADY. Mae gweithwyr ieuenctid yn meddu ar wybodaeth dda am anghenion unigolion, sy'n aml yn gymhleth, ac yn ymgysylltu'n effeithiol â phobl ifanc fregus iawn. Mae gan weithwyr ieuenctid berthnasoedd gwaith da â staff ysgolion, a chaiff darpariaeth amser cinio ei gwerthfawrogi'n fawr gan ysgolion.

Mae gweithwyr ieuenctid yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill i ddod o hyd i atebion i sicrhau bod pobl ifanc ag anghenion cymhleth yn cael y cymorth angenrheidiol i allu mynychu darpariaeth ieuenctid. Mae sawl person ifanc sy'n mynychu darpariaeth ADY dargedig yn yr ysgol wedi magu hyder trwy eu perthynas â'u gweithwyr ieuenctid, ac yn teimlo'n hyderus erbyn hyn i fynychu darpariaeth ieuenctid yn y gymuned.

Mae gweithwyr ieuenctid yn darparu clybiau amser cinio LHDTC+ i gefnogi'r rhai sydd efallai'n cael trafferth yn amgylchedd yr ysgol, ac yn darparu gofod lle gall pobl ifanc deimlo'n ddiogel a bod yn nhw eu hunain. Mae pobl ifanc yn teimlo bod croeso iddynt yn y sesiynau hyn, a gallant drafod y materion sy'n effeithio arnynt yn rhwydd.

Mae gweithwyr ieuenctid yn sicrhau bod pobl ifanc yn ennill y medrau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth ac i ddod yn oedolion cyfrifol trwy weithio'n effeithiol gyda staff mewn darpariaeth cyflogadwyedd a medrau mwy arbenigol. Mae gweithwyr ieuenctid yn gweithio'n dda gyda swyddogion heddlu cymunedol lleol, sy'n aml yn galw i mewn i sesiynau ac yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â'r bobl ifanc.

Mae astudiaethau achos parhaus a gasglwyd ynghyd gan weithwyr ieuenctid yn cofnodi cyflawniadau pobl ifanc yn dda, ac mae llawer ohonynt yn dangos sut mae gwaith ieuenctid wedi cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau. Mae gweithwyr ieuenctid yn hynod fyfyriol am eu gwaith eu hunain ac yn asesu llwyddiant eu gweithgareddau a'u hymyriadau trwy gofnodion sesiynau manwl.

Cydnabyddir bod gweithwyr ieuenctid yn ymarferwyr addysg hynod effeithiol a medrus gan gyfarwyddiaethau eraill y Cyngor ac asiantaethau allanol. Mae hyn wedi arwain at geisiadau am arbenigedd gweithwyr ieuenctid i weithio mewn prosiectau diogelwch cymunedol gan y comisiynydd heddlu a throseddu i fynd i'r afael ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd penodol o'r sir. Mewn enghraifft arall, gofynnodd yr arweinydd pobl ifanc yn yr awdurdod lleol am gymorth gweithwyr ieuenctid i weithio gyda phobl ifanc ym Mlwyddyn 6 sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol ac mewn perygl o ddangos ymddygiadau niweidiol eraill. Mae'r gwasanaeth ieuenctid hefyd yn cynnig clybiau pontio effeithiol ar gyfer y grŵp oedran Blwyddyn 6. Mae ychydig o weithwyr ieuenctid sy'n meddu ar gymwysterau chwarae a gwaith mewn sefyllfa dda i ymgymryd â'r gwaith hwn.

Mae gwybodaeth am addysg iechyd rhywiol a chynllun Cerdyn C, sef menter iechyd rhywiol sy'n gyfrinachol ac yn rhad ac am ddim, ar gael gan weithwyr ieuenctid hyfforddedig mewn darpariaeth mynediad agored. Mae gweithwyr ieuenctid, gyda mewnbwn gan bobl ifanc, wedi ysgrifennu deunyddiau cwricwlwm y maent yn eu cyflwyno mewn ysgolion yn rhan o'r rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh), a chânt eu defnyddio gan ddarparwyr gwaith ieuenctid eraill.

Mae'r canolfannau ieuenctid galw heibio, y clybiau ieuenctid a chlybiau amser cinio ysgolion sydd o ansawdd da ac yn boblogaidd, sy'n cyflawni hanfod sylfaenol gwaith ieuenctid mynediad agored i bobl ifanc, yn ganolog i waith darpariaeth y gwasanaeth ieuenctid. Mae canolfannau'n agored mewn tair o'r pedair prif dref, ac mae darpariaeth arall ar gael ledled y sir, hefyd. Mae perthnasoedd yn wirfoddol, yn ymddiriedus ac mae'r canolfannau'n rhoi mannau i bobl ifanc ymlacio'n ddiogel, a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hwyl, yn cryfhau cymeriad ac yn addysgol. Mae gweithwyr ieuenctid yn darparu arweiniad a chymorth diduedd ar amrywiaeth o destunau. Mae gweithwyr yn cynnal clybiau ieuenctid yn effeithiol ac mae pobl ifanc yn parchu'r cyfleusterau ac yn ymddwyn yn dda, ar y cyfan. Fodd bynnag, nid oes polisi na gweithdrefnau ymddygiad cyffredinol i gwmpasu'r ddarpariaeth gyfan.

Yn ogystal â'r ddarpariaeth mynediad agored, mae'r gwasanaeth yn darparu amrywiaeth o weithgareddau eraill dan arweiniad pobl ifanc, fel datblygiad LHDTC+ Pride, a digwyddiadau eraill i ddathlu amrywiaeth yn Sir Fynwy a oedd yn cynnwys gweithgareddau amlddiwylliannol a gweithgareddau Cymraeg. Mae gweithwyr ieuenctid wedi datblygu set o adnoddau defnyddiol, y maent yn eu cyflwyno i ysgolion yn rhan o'r sioe deithiol amrywiaeth, i godi ymwybyddiaeth a chynyddu dealltwriaeth a goddefgarwch.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid hefyd yn darparu ystod o weithgareddau haf, yn cynnwys tripiau lle mae pobl ifanc yn ehangu eu gorwelion trwy ymweld ag atyniadau ledled y Deyrnas Unedig, ac yn bwysicach, yn cael hwyl. Mae staff yn cydweithio â chydweithwyr Gwobr Dug Caeredin, sy'n darparu offer ar gyfer gwersyll haf blynyddol y gwasanaeth ieuenctid.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn gweithio'n dda i hyrwyddo a hwyluso defnydd pobl ifanc o'r Gymraeg. Cyflwynir darpariaeth Gymraeg gan yr Urdd, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i ymwneud yn agos â hyn, er enghraifft trwy ddarparu adnoddau Cymraeg i alluogi gweithwyr ieuenctid yr Urdd i gyflwyno gweithgareddau yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yr awdurdod. Yn ychwanegol, mae'r gwasanaeth yn pennu gweithwyr ieuenctid sy'n dysgu Cymraeg i gyflenwi staff ar gyfer y ddau glwb ieuenctid cyfrwng Cymraeg, os oes angen. Mae pobl ifanc yn elwa'n gymdeithasol ac yn ieithyddol ar y cyfleoedd hyn ac yn eu

gwerthfawrogi'n fawr. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i bobl ifanc arwain a dylanwadu ar weithgareddau yn y clwb ieuenctid cyfrwng Cymraeg.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn cydweithio â phartneriaid i ehangu cyrhaeddiad gwaith ieuenctid i fodloni cynnig cwricwlwm ehangach ac uchafu'r defnydd o ffynonellau cyllid eraill. Yn fewnol, mae'r gwasanaeth ieuenctid yn gweithio gyda phartneriaid fel y tîm cyflogaeth a sgiliau sy'n ymdrin â'r Fframwaith Cyflogaeth a Chynnydd Ieuenctid (YEPF) a Compass, sef gwasanaeth sy'n cefnogi atal digartrefedd ieuenctid. Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn gweithio gyda phartneriaid fel y prosiect Cymru Greadigol, sy'n ariannu prosiectau artistig y mae pobl ifanc yn eu mwynhau fel ysgrifennu caneuon a hyfforddiant DJ, a gydag EYST, yn helpu hyrwyddo cydlyniant cymunedol a dealltwriaeth o anghenion ystod eang o bobl ifanc.

Er mwyn ymateb i'r angen i hwyluso gwaith ieuenctid mewn mwy o ardaloedd yn y sir, mae'r gwasanaeth ieuenctid wedi datblygu pecyn cymorth i gynorthwyo â sefydlu clybiau ieuenctid cymunedol. Mae hyn yn cynnig dewislen o gamau posibl ar gyfer grwpiau lleol a sut gallai'r gwasanaeth ieuenctid eu cefnogi. O ganlyniad i hyn, er enghraifft, mae'r gwasanaeth ieuenctid yn darparu clwb ieuenctid yn adeilad yr Hyb a gynhelir gan y gymuned ym Magwyr.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn defnyddio arolwg 'Gwnewch Eich Marc' yn offeryn ymgynghori allweddol ar gyfer cael safbwyntiau pobl ifanc. Mae'r arolwg, sydd wedi cael ei addasu ar gyfer Sir Fynwy, yn galluogi pobl ifanc i gael dweud eu dweud am faterion allweddol sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae cyfradd ymateb uchel iawn i'r arolwg hwn sy'n galluogi pobl ifanc i gael mewnbwn i ddatblygu polisi lleol. Caiff y canlyniadau eu gwerthfawrogi'n fawr gan gyfarwyddiaethau eraill yn yr awdurdod lleol sy'n gweithredu ar faterion, lle gallant. Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn rheoli'r darn hwn o waith yn effeithiol ac yn rhoi adborth i bobl ifanc ar ba newidiadau sydd wedi digwydd o ganlyniad i'w mewnbwn.

### Ciplun: Pobl ifanc Sir Fynwy yn gwneud eu marc

Mae arolwg Gwnewch Eich Marc Sir Fynwy yn bleidlais flynyddol ledled y sir dan arweiniad pobl ifanc a ddefnyddir i gynyddu cyfranogiad pobl ifanc yn y penderfyniadau a wneir. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn hwyluso ac yn cydlynu'r bleidlais, gan roi cyfle gwerthfawr i bobl ifanc bleidleisio ar y materion yn nhrefn eu pwysigrwydd iddyn nhw. Pleidleisiodd bron i dri chwarter (3,509) y bobl ifanc rhwng 11 ac 18 oed mewn lleoliadau addysg yn y bleidlais ddiweddaraf.

Trafodwyd y materion mwyaf cyffredin mewn cynhadledd ieuenctid a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir. Mynychodd 45 o bobl ifanc i rannu eu profiadau a'u safbwyntiau a chreu argymhellion ar gyfer ysgolion, gwasanaethau a llunwyr polisi. Dywedodd pobl ifanc yn glir mai'r tair blaenoriaeth uchaf oedd costau byw, materion iechyd meddwl, a chyflogaeth a medrau. Ar ôl hynny, mae'r gwasanaeth ieuenctid yn rhoi adroddiadau cynnydd i bobl ifanc ar y camau a gymerwyd ar argymhellion o'r flwyddyn flaenorol.

Trwy gymryd rhan yn y bleidlais a mynychu'r gynhadledd, mae llawer o bobl ifanc yn mynegi eu barn yn glir ac yn ddemocrataidd. Mae eu lleisiau'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bolisi. Er enghraifft, mae cynnydd ar argymhellion ar ôl y bleidlais yn 2024 yn cynnwys cryfhau llais y myfyriwr gyda phwyslais ar gyd-lunio polisïau lles cynhwysol mewn ysgolion; cyflwyno cynllun Pasbort i Hamdden i leihau costau mynediad i ganolfannau hamdden; ac ehangu gwasanaethau bws mewn ardaloedd gwledig i gyd-fynd yn agosach ag amserlenni ysgolion.

Mae darpariaeth gwaith ieuenctid yn cefnogi gwaith ehangach yr awdurdod lleol yn dda. Mae gweithwyr ieuenctid yn darparu gwasanaeth hanfodol a gwerthfawr i bobl ifanc yn Sir Fynwy sy'n cynorthwyo llawer ohonynt i wneud dewisiadau cadarnhaol am ffordd o fyw, i dyfu a ffynnu, a chael y gorau o addysg a hyfforddiant.

## Arwain a gwella

Mae gan y gwasanaeth ieuenctid weledigaeth glir, sy'n cael ei harwain yn angerddol gan y rheolwr gwasanaeth ieuenctid. Mae'r weledigaeth i rymuso pobl ifanc Sir Fynwy i ffynnu a ffurfio dyfodol, yn amlwg yn ansawdd y gwaith ieuenctid a gynigir.

Caiff y gwasanaeth ieuenctid ei werthfawrogi a'i gefnogi'n glir gan uwch swyddogion. Mae hyn yn amlwg yn y penderfyniad diweddar i symud y gwasanaeth ieuenctid i'r gyfarwyddiaeth Plant, Dysgu, Sgiliau a'r Economi. Mae aelodau'r Cabinet yn frwdfrydig am weithio gyda'r gwasanaeth ieuenctid ac wedi ymgysylltu â gweithwyr ieuenctid. Maent wedi ymweld â darpariaeth, hefyd. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaeth ieuenctid wedi cymryd rhan mewn prosesau craffu ffurfiol hyd yma. Mae hyn wedi cael ei gydnabod, ac eir i'r afael â hyn ar ôl symud i'r gyfarwyddiaeth Plant, Dysgu, Sgiliau a'r Economi yn ddiweddar iawn. Felly, mae cymorth a her ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid ar y lefel hon yn

datblygu. Mae rheolwr y gwasanaeth ieuenctid a'i dîm yn nodi ac yn meithrin perthnasoedd yn effeithiol gyda swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor i feithrin capasiti.

Mae gwrando ar safbwyntiau pobl ifanc, a'u hystyried, yn ganolog i lywodraethu'r gwasanaeth ieuenctid. Mae gan y tîm ffocws ar ddarparu cyfleoedd cyfranogol ystyrlon ar gyfer pobl ifanc sy'n helpu ffurfio'r gwasanaeth.

Mae partneriaid yn gadarnhaol iawn am eu hymgysylltiad â'r gwasanaeth ieuenctid. Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn gweithio'n dda gyda phartneriaid mewnol ac allanol, fel ei gilydd.  Cyfeiriodd llawer o bartneriaid at y gynhadledd ieuenctid ar ôl pleidlais Gwnewch Eich Marc fel enghraifft benodol o ddigwyddiad y buont yn cydweithio arno. Amlygodd pob un o'r partneriaid y modd yr oedd y gwasanaeth ieuenctid yn ganolog i lwyddiant y digwyddiad hwn. Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn uchel ei barch gan asiantaethau partner, ac maent yn cyfeirio at y gwasanaeth ieuenctid fel gwasanaeth dibynadwy ac y gellir ymddiried ynddo. Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol ac yn darparu cymorth i bartneriaid, pan fydd angen.

Gyda'i bartneriaid, mae'r gwasanaeth ieuenctid yn cynnig darpariaeth gynhwysol gref ar gyfer pobl ifanc. Mae hyn yn sicrhau bod pobl ifanc o ystod o gefndiroedd yn gallu elwa ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid i oresgyn materion a rhwystrau. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phobl ifanc o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, a phobl ifanc sy'n cael trafferth â'u hiechyd meddwl.

Mae cytundebau lefel gwasanaeth (CLG) cadarn ar waith lle mae'r gwasanaeth ieuenctid wedi comisiynu asiantaethau eraill. Mae'r CLGau hyn yn cynnwys gweithdrefnau diogelu ac adrodd cryf i sicrhau bod y gwaith yn cyd-fynd â'r safonau uchel maen nhw'n gosod iddyn nhw eu hunain. Mae'r CLGau yn amlinellu'n glir y disgwyliad ar bartneriaid i gyflwyno, ac yn ffurfio sylfaen sicrhau ansawdd y gwaith hwn. Mae gwaith y gwasanaeth ieuenctid gyda phartneriaid wedi'u comisiynu yn hynod gydweithredol.

Mae rheolwr a staff y gwasanaeth ieuenctid yn chwarae rôl bwysig mewn ystod o gyfarfodydd amlasiantaethol ar draws yr awdurdod. Er enghraifft, mae ganddynt bresenoldeb ar y paneli trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, Pwynt Mynediad Sengl ar gyfer Lles Emosiynol Plant (SPACE), a chadw mewn cysylltiad. Mae rheolwr y gwasanaeth ieuenctid yn cysylltu'n llwyddiannus â darparwyr hyfforddiant allanol, gan chwarae rôl ganolog mewn datblygu a chyflwyno hyfforddiant gwaith ieuenctid sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i Sir Fynwy. Mae rheolwr y gwasanaeth ieuenctid yn gyfrifol am hyfforddi myfyrwyr gwaith ieuenctid lefel 3 ledled Cymru trwy ganolfan hyfforddi achrededig y gwasanaeth ieuenctid. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar y gweithlu o ran cynyddu nifer y gweithwyr cymorth ieuenctid cymwys ar draws y sector.

Defnyddir y grant cymorth ieuenctid (YSG), yn rhannol, i ariannu gwaith gyda'r tîm cyflogaeth a sgiliau a'r cydlynydd digartrefedd ieuenctid. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y cytundeb gyda phartneriaid YSG yn gryf ac yn cael ei gydlynu'n effeithiol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod cyflwyno'u gwasanaethau yn strategol ac yn weithredol. Mae arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i uchafu cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc. Er enghraifft, mae staff o'r tîm cyflogaeth a sgiliau yn gweithio gyda chydweithwyr y gwasanaeth ieuenctid mewn canolfannau ieuenctid. Mae hyn yn galluogi'r gwasanaeth ieuenctid i gynnig darpariaeth estynedig ar gyfer pobl ifanc, yn cynnwys ar ddydd Sadwrn.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid a'r partneriaid YSG yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol, sy'n bwydo'n ddi-dor i fecanweithiau adrodd y gwasanaeth ieuenctid. Mae'r grŵp wedi nodi mwy o gyfleoedd i ddatblygu eu partneriaeth, gydag uchelgais i gynyddu'r hyfforddiant ar y cyd a gynigir ar gyfer pob un o'r staff.

Mae gan y gwasanaeth weithdrefnau goruchwylio cryf sy'n gysylltiedig â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ac maent yn cael eu trefnu'n rheolaidd ar gyfer staff. Mae rheolwyr yn annog datblygiad medrau arwain trwy ddarparu hyfforddiant goruchwylio ar gyfer staff. Mae'r staff hyfforddedig hyn yn ymgymryd â chyfrifoldebau goruchwylio. Mae'r dull hwn wedi rhoi cyfle i staff ddatblygu eu medrau arwain ac yn cyfrannu at gynlluniau olyniaeth y gwasanaeth.

Mae rheolwr y gwasanaeth ieuenctid wedi datblygu cynllun cyflwyno cynhwysfawr sy'n cynnwys y cyflwyno gweithredol a'r amcanion strategol. Mae'r cynllun yn cysylltu'n dda â nodau ehangach y Cyngor. Mae llawer o staff yn cyfrannu at y cynllun cyflwyno gwasanaeth, sy'n rhoi dealltwriaeth iddynt o'u rôl. Mae hyn yn helpu annog arweinyddiaeth system ac yn dwyn unigolion i gyfrif.

Mae system gwybodaeth reoli'r gwasanaeth ieuenctid, sy'n cynnwys cofrestrau a chofnodion diwedd sesiynau, yn bwydo'n ddi-dor i ddiweddaru'r cynllun cyflwyno gwasanaeth. Mae hyn yn darparu data byw, uniongyrchol ar gyfer arweinwyr o'r gwasanaeth y maent yn ei ddefnyddio i adrodd i uwch swyddogion, a gwneud penderfyniadau amserol ar faterion sy'n codi, fel dyrannu adnoddau. Mae faint o ddata a gesglir am bobl ifanc yn amrywio yn dibynnu ar y math o ddarpariaeth a fynychir. Mae gweithwyr ieuenctid yn deall yn glir beth yw eu cyfrifoldebau adrodd a sut y defnyddir data, o gofnodion sesiynau i'r cynllun cyflwyno gwasanaeth.

### Ciplun: Cynllun byw ar gyfer effaith barhaus

Mae rheolwr y gwasanaeth ieuenctid wedi creu cynllun cyflwyno gwasanaeth dynamig a blaengar sy'n gyrru gwelliant. Mae hwn yn gweithredu fel fframwaith byw, ac yn cael ei adnewyddu'n barhaus bob chwarter i adlewyrchu cynnydd, dysgu, a blaenoriaethau sy'n newid. Mae'r rheolwr yn cysylltu uchelgeisiau strategol y gwasanaeth yn fedrus â gweithrediadau o ddydd i ddydd a nodau corfforaethol ehangach, gan sicrhau bod pob cam yn cyfrannu at y darlun mwy.

Mae system gwybodaeth reoli gadarn yn sail i'r broses hon, yn casglu data sesiynol amser real sy'n llifo'n uniongyrchol i'r cynllun cyflwyno gwasanaeth. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i wneud penderfyniadau gwybodus ac amserol a chreu adroddiadau clir, wedi'u seilio ar dystiolaeth ar gyfer uwch swyddogion a phartneriaid, pryd bynnag mae angen. Er enghraifft, darparu gwybodaeth sensitif o ran amser i gynghorau tref am y gwaith y mae'r gwasanaeth wedi bod yn ei wneud yn eu hardal.

Yn bwysig, mae hon yn ymdrech ar y cyd. Mae llawer o staff yn cyfrannu at y cynllun, gan ddiweddaru'r adrannau sy'n gysylltiedig â'u meysydd cyfrifoldeb eu hunain. Mae eu hymglymiad gweithgar yn cryfhau perchnogaeth ac yn hyrwyddo diwylliant o arweinyddiaeth ar y cyd ar draws y gwasanaeth. Mae pob diweddariad yn cynnwys sylwadau myfyriol, yn cofnodi gwerthusiadau gonest, heriau sy'n dod i'r amlwg, a chamau clir ar gyfer gwella.

Dros gyfnod, mae'r diweddariadau hyn yn ffurfio naratif o gynnydd, gan amlinellu datblygiad a chyflawniad sy'n cofnodi taith barhaus y gwasanaeth. O fewn pob adolygiad chwarterol, caiff astudiaethau achos a thystiolaeth arall eu hymgorffori sy'n dod â data'n fyw, gan arddangos effaith wirioneddol gwaith ieuenctid ar fywydau pobl ifanc.

Mae gan arweinwyr gynllun clir ar gyfer datblygu'r gweithlu sydd wedi'i deilwra i weddu i'r math o rôl y disgwylir i'r gweithwyr ieuenctid ei chyflawni. Mae'r cynllun datblygu hwn wedi'i gynnwys yn rhan o'r llawlyfr staff, gyda disgwyliadau clir ar unigolion yn y cyfnod ymsefydlu. Caiff mwy o anghenion hyfforddi eu nodi gan weithwyr ieuenctid trwy gyfarfodydd tîm, cofnodion sesiynau a goruchwyliaeth.

Ceir diwylliant cryf o arfer ddiogelu sydd wedi'i gwreiddio ar draws y gwasanaeth. Mae pob un o'r staff yn deall y gweithdrefnau adrodd a chofnodi ar gyfer diogelu pobl ifanc. Amlygodd partneriaid allanol y gofal a'r sylw y mae'r gwasanaeth ieuenctid yn eu rhoi i ddiogelu pobl ifanc, hefyd. Mae rheolwr y gwasanaeth ieuenctid a'r swyddog arweiniol ar gyfer diogelu mewn addysg yn adolygu'r ddyletswydd i adrodd am atgyfeiriadau a wneir gan staff. Yn rhan o'r broses hon, maent yn rhoi adborth i staff ac yn nodi unrhyw dueddiadau diogelu sy'n dod i'r amlwg gyda phobl ifanc.

Mae arweinwyr yn gofalu am les staff yn gydwybodol, a chynigir amrywiaeth o gymorth i unigolion. Mae staff sy'n delio â phryderon diogelu anodd, er enghraifft, yn elwa ar gwnsela a chymorth lles amserol. Dywed staff fod y cymorth lles a gânt yn cael ei ystyried yn agwedd bwysig y mae arweinwyr yn ei blaenoriaethu.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi'r canlyniadau o'r holiaduron i bobl ifanc, ac yn ystyried barn pobl ifanc, staff, a phartneriaid, lle bo'n briodol, trwy'r ymatebion i'r holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod â'r prif swyddog ieuenctid / y prif weithredwr, y bwrdd ymddiriedolwyr, uwch reolwyr a rheolwyr canol, staff gwaith ieuenctid unigol, a gwirfoddolwyr i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â phobl ifanc i drafod eu darpariaeth, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau gwaith ieuenctid, gan gynnwys clybiau ieuenctid, gwaith datgysylltiedig ar y stryd a gweithgareddau yn yr ysgol ar draws y ddarpariaeth, lle bo'n briodol
- yn arsylwi pobl ifanc, ac yn siarad â nhw yn ystod sesiynau darpariaeth
- yn edrych yn agos ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn craffu ar ystod eang o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am gyfranogiad a deilliannau dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu pobl ifanc, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu, er mwyn dilysu, cymedroli a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o bobl ifanc…'* neu *'ychydig iawn o bobl ifanc…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau (2000).

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a)  mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/01/2026